



PROSPECTWS

Y Coleg Gwyddoniaeth

100
1920-2020



Prifysgol
Abertawe
Swansea
University

AR Y CLAWR

Darlun o Favela: 'Edrychwn ar y byd trwy lygaid newydd, gan roi dynoliaeth wrth wraidd ein hymchwil'

gan Richard Smith, Adran Ddaearyddiaeth y Coleg Gwyddoniaeth.

BETH YW YMCHWIL FEL CELF?

Mae cystadleuaeth Ymchwil fel Celf Prifysgol Abertawe yn annog ymchwilwyr i ymgysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd yn eu hymchwil trwy ddelweddau trawiadol a thestun cyfareddol. Mae'r gystadleuaeth flynyddol wedi denu mwy na 500 o gynigion syfrdanol ers ei sefydlu yn 2009, gan gynrychioli pob coleg academiaidd, a chyrraedd 50 miliwn o bobl ar draws y byd.



CYNNWYS

CYRSIAU DAEARYDDIAETH	CYFLEUSTERAU	CAMPWS PARC SINGLETON	TEITHIAU MAES DAEARYDDIAETH
04	05	06	08
GWYBODAETH AM Y CYRSIAU	PROFFILIAU MYFYRWYR	GYRFAOEDD A CHYFLOGADWYEDD	PROFFILIAU CYN-FYFYRWYR
12	18	22	23
YMCHWIL Y STAFF	CYNWYSOLDEB	MYFYRWYR RHYNGWLADOL A BLYNYDDOEDD SYLFAEN	YMWELD AG ABERTAWE
26	30	32	33
DYDDIADAU PWYSIG	CYRRAEDD YMA	DEALL Y TERMAU	
34	35	36	

CROESO I'R COLEG GWYDDONIAETH

Mae'n wych eich bod chi'n ystyried Prifysgol Abertawe fel y cam allweddol nesaf yn eich dyfodol a'ch gyrfa. Fel y Pennaeth Gwyddoniaeth, roeddwn am ddweud wrthyh mor bwysig yw pob aelod o'n cymuned: os ymunwch â ni, cewch chwarae rhan bwysig yn ein gwaith sy'n trawsnewid y byd.

Rydym yn falch o groesawu pobl i'n 'teulu' o lawer o gefndiroedd ac o bob cwr o'r byd. Lle ceir amrywiaeth, bydd gwyddoniaeth yn camu ymlaen, ac anogwn lawer o safbwyntiau, lleisiau a chalonnau i ymwneud â'n gweithgareddau wrth i ni ddod yn un o'r canolfannau gwyddoniaeth mwyaf creadigol, croesawus a chydabyddedig ar y llwyfan byd-eang.

Tra byddwch gyda ni, gwnawn bopeth a allwn i'ch helpu i ffynnu a llwyddo; gan eich arfogi â gwybodaeth, sgiliau ac agweddau ar gyfer gyrfa werthfawr a bywyd da. Byddwch yn cyfarfod â phobl - yn gyd-fyfyrwyr ac yn staff - a fydd yn cael effaith gydol oes

arnoch a chewch eich annog i rannu eich gwybodaeth gydag eraill hefyd.

Yn y llyfryn hwn, cewch wybodaeth benodol am eich pwnc arbenigol. Fe welwch y cewch eich dysgu gan ymchwilwyr ac athrawon sy'n arweinwyr byd yn eu maes ac sy'n ymroddedig i'ch addysg. Cewch ddarllen am yr ystod o swyddi a gyrfaedd y bydd eich addysg yn agor drws iddynt, a llwyddiannau nodedig ein myfyrwyr wrth ddewis dyfodol sy'n iawn iddyn nhw. Rwy'n sicr y bydd hyn i gyd yn ddefnyddiol i chi ond cofiwch ymweld â ni i gael rhyw deimlad o'r cyffro a'r rhagoriaeth sy'n rhan o'n DNA.



Yr Athro Matt Jones,
Pennaeth y
Coleg Gwyddoniaeth

SGORIAU CYSON
UCHEL O RAN
BODDHAD
MYFYRWYR

93%

Arolwg Cenedlaethol
y Myfyrwyr 2017

Mae'r gymuned Ddaeryddiaeth yn Abertawe yn ymfalchïo yn ei hawyrgylch cyfeillgar a chroesawus. Yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr 2017, dywedodd 80% o'n myfyrwyr y teimlent eu bod yn rhan o gymuned o staff a myfyrwyr. Dyma sut rydym yn cymharu â phrifysgolion eraill (yn y Gwyddorau Daearyddol Ffisegol).

Abertawe	80%
Oxford Brookes	79%
Plymouth	78%
Exeter	76%
Reading	75%
Aberystwyth	71%
Bryste	69%

CYRSIAU DAEARYDDIAETH

L700
BA DAEARYDDIAETH

F554
BA DAEARYDDIAETH
GYDA BLWYDDYN
MEWN DIWYDIANT

L720
BA DAEARYDDIAETH
DDYNOL

L987
BA DAEARYDDIAETH
DDYNOL GYDA
BLWYDDYN MEWN
DIWYDIANT

L701
BA DAEARYDDIAETH
GYDA BLWYDDYN
DRAMOR

F800
BSc DAEARYDDIAETH

F273
BSc DAEARYDDIAETH
GYDA BLWYDDYN
MEWN DIWYDIANT

F840
BSc DAEARYDDIAETH
FFISEGOL

F931
BSc DAEARYDDIAETH
FFISEGOL GYDA
BLWYDDYN
MEWN DIWYDIANT

F8R9
BSc DAEARYDDIAETH
GYDA BLWYDDYN
DRAMOR

F830
BSc DAEARYDDIAETH A
GEO-WYBODEG

FL87
BSc DAEARYDDIAETH
GYDA BLWYDDYN
SYLFAEN INTEGREDIG

FF86
BSc GWYDDOR Y
DDAEAR FFISEGOL

F769
BSc GWYDDOR
FFISEGOL Y DDAEAR
GYDA BLWYDDYN
MEWN DIWYDIANT

LT77
BA ASTUDIAETHAU
AMERICANAIDD A
DAEARYDDIAETH
(4 blynedd)

Cyfleusterau
AR GAMPWS
SINGLETON

Mae gan yr Adran adnoddau da i gefnogi ymchwil. Mae dau labordy cyfrifiaduron pwrpasol: mae'r rhain yn darparu meddalwedd TG cyffredinol a rhaglenni pwrpasol ar gyfer Systemau Gwybodaeth Ddaeryddol (GIS) a Synhwyro o Bell.

Mae gennym labordai arbenigol ar gyfer dadansoddi cymarebau isotopau sefydlog; dadansoddi cylchoedd coed; echdynnu ac adnabod cyfansoddion organig; echdynnu a dadansoddi paill; efelychiadau glawiad; dadansoddi telfra; nodweddau pridd a dyddodion.

Ar ben hynny, rydym wedi buddsoddi mewn labordai Gwyddoniaeth newydd gwerth £4.2m, sy'n cynnwys labordai Daeareg, labordy addysgu grwpiau newydd ac ystafell TG. O ganlyniad i'r adnewyddu, mae gennym gyfleusterau llawer gwell ar gyfer dysgu lefel uwch o dechnegau a sgiliau gwaith labordy trosglwyddadwy.



Lleolir Campws Parc Singleton ynghanol parcdir aeddfed a gerddi botaneg, gyda golygfeydd dros draeth Bae Abertawe.

ADLONIAINT,
HAMDDEN A
GWASANAETHAU AR
Y CAMPWS

- Pentref Chwaraeon
- Llyfrgell
- Siop Ddillad
- Swyddfa'r Post
- Siop Lyfrau
- Banc
- Canolfan Gelfyddydau Taliesin
- Siopau Coffi
- Lleoedd bwyd
- Bar
- Archfarchnad

IECHYD, DIOGELWCH
A LLES

- Meddygon
- Deintydd
- Cyngor Ariannol
- Wardeiniaid 24 awr
- Swyddfa Anabledd
- Meithrinfa
- Gwasanaeth Cyngori Myfyrwyr Rhyngwladol

CAMPWS PARC SINGLETON

Y GORAU O DDAU FYD

Lleolir y Coleg Gwyddoniaeth ar ddau gampws, sef Parc Singleton a Champws y Bae. Gall fod eich pwnc yn troi o gwmpas un campws penodol, ond bydd croeso mawr i chi ddefnyddio'r cyfleusterau gwych yn y naill le neu'r llall.

Gall pawb fwynhau'r Pentref Chwaraeon a'r mannau gwyrdd cysgodol ym Mharc Singleton neu'r mannau dysgu cymdeithasol a'r olygfa hyfryd dros y traeth ar Gampws y Bae. Mae'n hawdd teithio rhwng y ddau - mae bysiau rheolaidd a gwnaethom gais

Ilwyddiannus am gynllun rhannu beiciau newydd, felly mae modd llogi beiciau er mwyn teithio o un campws i'r llall, gyda gorsafoedd docio yn y ddau le. Mae tocyn bws blyneddol yn costio tua £300. Fe'ch cyngorir i beidio â dod â char i'r brifysgol, oherwydd hyn a hyn o le parcio sydd ar y campws a'r strydoedd preswyl cyfagos.

Rhagor o wybodaeth ynghylch trafnidiaeth:

www.swansea.ac.uk/estates-and-facilities-management/ourservices/travelandparking

GWYDDORAU DYNOL AC IECHYD

Y GYFRAITH A THROSEDDEG

DAEARYDDIAETH

Y CELFYDDYDAU A'R DYNIAETHAU

MEDDYGAEATH

LLETY MYFYRWYR

LLYFRGELL PARC SINGLETON

CANOLBWYNT MYUNI

TALIESIN A'R GANOLFAN EIFFTAIDD

BWS 24 AWR (Yn ystod y Tymor)

TŶ FULTON

Y GORAU O DDAU FYD

Lleolir y Coleg Gwyddoniaeth ar ddau gampws, sef Parc Singleton a Champws y Bae. Gall fod eich pwnc yn troi o gwmpas un campws penodol, ond bydd croeso mawr i chi ddefnyddio'r cyfleusterau gwyh yn y naill le neu'r llall.

Gall pawb fwynhau'r Pentref
Chwaraeon a'r mannau
gwyrded cysgodol yw Mharc
Singleton neu'r mannau dysgu
cymdeithasol a'r olygfa hyfryd
dros y traeth ar Gampws y
Bae. Mae'n hawdd teithio
rhwng y ddau - mae bysiau
rheolaidd a gwnaethom gais


llwyddiannus am gynllun
rhannu beiciau newydd, felly
mae modd llogi beiciau er
mwyn teithio o un campws i'r
llall, gyda gorsafoedd docio
yn y ddau le. Mae tocy'n bws
blynyddol yn costio tua £300.
Fe'ch cynghorir i beidio â dod
â char i'r brifysgol, oherwydd
hyn a hyn o le parcio sydd
ar y campws a'r strydoedd
preswyl cyfagos.

Rhagor o wybodaeth
ynghylch trafnidiaeth:

www.swansea.ac.uk/estates-and-facilities-management/ourservices/travelandparking

-  **GWYDDORAU DYNOL AC IECHYD**
-  **Y GYFRAITH A THROSEDEG**
-  **DAEARYDDIAETH**
-  **Y CELFYDDYDAU A'R DYNIAETHAU**
-  **MEDDYGAETH**
-  **LLETY MYFYRWYR**
-  **LLYFRGELL PARC SINGLETON**
-  **CANOLBWYNT MYUNI**
-  **TALIESIN A'R GANOLFAN EIFFTAIDD**
-  **BWS 24 AWR** (Yn ystod y Tymor)
-  **Tŷ FULTON**

TEITHIAU MAES
DAEARYDDIAETH



Arsylwi, meddwl, myfyrïo a thrafod efallai yw'r elfennau allweddol sy'n cyfrannu at brofiadau llwyddiannus i fyfyrwyr ar y daith faes hon. Ymhlith y pethau sy'n ein hatgoffa am hanes helbulus y ddinas yn yr 20fed ganrif mae Cofeb yr Holocost a gweddillion Mur Berlin a'u graffiti. Bydd myfyrwyr yn archwilio ac yn gwerthuso daearyddiaeth ddynol amrywiol Berlin, sy'n adnabyddus hefyd am ei chelfyddydau a'i thirnodau modern, ac yn dysgu rhywfaint am ei chymeriad arbennig.

Austria

Bydd y myfyrwyr yn aros ym mhentref hardd Vent yn y mynyddoedd, yn agos at y man lle y darganfuwyd Otzi yn yr iâ, ac yn cael profiad o natur ddeinamig amgylcheddau Alpaidd. Byddwch yn dysgu am hanes rhewlifol yr Alpau ac effeithiau cyfredol cynhesu byd-eang, prosesau a thirffurfiau rhewlifoedd, hydroleg afonydd a thechnegau dyddio.

Mae'r daith faes yn ffordd wych o ddod i adnabod eich cyd-fyfyrwyr wrth heicio trwy ddyffryn hardd Niedertal neu ardal Rhewlifoedd Rofental a Rofenkar.

Vancouver

Archwiliwch ryfeddodau dynol a naturiol Vancouver a harddwch British Columbia yn ystod y cwrs maes hwn sy'n para 14 diwrnod. Gall y rhai sy'n ymddiddori mewn daearyddiaeth ddynol astudio datblygiad amgylchedd adeiledig, amrywiaeth ethnig, twristiaeth a diwydiant ffilmiau Vancouver, tra bydd cyfle i ddaearyddwyr ffisegol archwilio fforestydd glaw y glannau, delta Afon Fraser a dysgu am afalansiau. Yna, bydd myfyrwyr yn mynd ar daith gerdded trwy ardal ryfeddol Squamish, gan ddilyn llwybr y chwilwyr aur, a chael amser i wylïo gêm o hoci (iâ), sgïo neu chwilota am fargeinion yn y canolfannau siopa. Profiad gwirioneddol fythgofiadwy.



Mallorca

Mae cwrs maes Mallorca yn daith breswyl lle cewch dreulio wythnos yn yr haul yn adnabod ac yn diffinio cwestiynau daearyddol ar ynys Faeirig Mallorca, sy'n enghraifft o ardal â hinsawdd Fediteranaidd. Dim ond 2% o dir y Ddaear sydd â hinsawdd Fediteranaidd ac mae cymhwyso sgiliau, gwybodaeth a thechnegau daearyddol perthnasol mewn hinsawdd mor unigryw yn un o themâu allweddol y cwrs. Y nodau cyffredinol yw arsylwi, dadansoddi a dod i ddeall y tirweddau amrywiol o ran eu daearyddiaeth ffisegol - o'r mynyddoedd calchfaen i'r traethau tywodlyd, heulog - a nodweddion daearyddiaeth ddynol gynhenid Mallorca a Môr y Canoldir.

Bydd myfyrwyr sy'n astudio'r modiwl hwn yn cael profiad o ddylunio ymchwil, methodolegau, dulliau dadansoddi a chyflwyno data, gan gynnwys seminarau, posterï ac adroddiadau. Bydd myfyrwyr sy'n astudio'r cwrs maes hwn yn canolbwyntio ar ddaearyddiaeth ffisegol yr ardal ac yn gwneud gwaith prosiect arbenigol sy'n berthnasol i'w diddordebau.

Efrog Newydd

Trwy deithio ar droed ac ar drenau tanddaear, ac ymweld â safleoedd sy'n cynnwys Wall Street, Times Square, Central Park, y Lower East Side a Williamsburg, daw'r myfyrwyr ar draws rhai o'r enghreifftiau gorau o ddamcaniaethau a chysyniadau daearyddiaeth ddynol mewn bywyd go iawn, a bydd y darlithiau a'r gwerslyfrau'n dod yn fyw, gobeithio. Bydd cyfle i fyfyrwyr archwilio themâu sy'n amrywio o bensaernïaeth a phwer i foneddigeiddio, mudo ac ethnigrwydd. Fodd bynnag, bydd amser i ymlacio hefyd gyda chyfle i fwynhau amrywiaeth o fwyd a diod, gwyltio chwaraeon a chrwydro'r siopau di-ri!

Borneo

Cyfle i archwilio fflora a ffawna y fforest law, mangroffau, rhaeadrau a nentydd dyffryn rhyfeddol Danum, cartref yr orangutan a'r cornylfin. Mae'r ganolfan faes lle byddwch yn gweithio ynghanol y fforest law fwyaf a mwyaf cyfoethog sydd ar ôl ar dir isel de-ddwyrain Asia, sy'n gartref i fwy na 200 rhywogaeth o goed yr hectar. Mae'r fforest law ei hun yn 130 miliwn o flynyddoedd oed, ac yn gartref i fywyd gwylt prinnaf y wlad, sydd mewn perygl enbyd.

Bydd y myfyrwyr yn cael golwg unigryw ar effaith torri a thrin coed a newid defnydd tir, rheoli a chadw'r fforest, ecoleg y fforest a microhinsoddau. Bydd prosiectau'n seiliedig ar themâu gan gynnwys adfer y fforest, erydiad pridd a hydroleg.

“Fy nhaith faes yn yr ail flwyddyn i Borneo, Malaysia yw uchafbwynt fy ngradd hyd yn hyn. Fe wnaeth y cyfle i brofi diwylliant, tirwedd a hinsawdd Borneo helpu i ddatblygu fy ngalluoedd academaidd a rhoi popeth roedden ni wedi'i ddysgu mewn cyd-desfun. Casglu data mewn amgylchedd cwbl ddieithr i mi a chael cyfle i gyfrannu, mewn ffordd fach, at astudiaethau gwyddonol mawr eu heffaith, oedd yr agweddau mwyaf cyffrous o'r cwrs maes. Doedd ceisio deall effaith datgoedwigo, newid defnydd tir a'r newid yn yr hinsawdd, ar fforest law drofannol, erioed wedi teimlo mor bwysig, yn enwedig o ran y polisi amgylcheddol cynaliadwy rydym yn ei weithredu i amddiffyn ein planed.”

Mitchell Brain

CÔD UCAS: L700
3 BLYNEDD LLAWN-AMSER
CYNNIG NODWEDDIADOL: AAB-BBB

BA DAEARYDDIAETH

Mae'r radd hon yn addas i fyfyrwyr sydd â mwy o ddiddordeb mewn daearyddiaeth ddynol. Fodd bynnag, byddwch yn gallu astudio modiwlau sy'n cwmpasu daearyddiaeth ffisegol, ddynol ac agweddau ymarferol ar ddaearyddiaeth.

Ym Mlwyddyn 1, gall eich modiwlau gynnwys Newid Amgylcheddol Byd-eang; Pobl, Lle a Chenedl; Mudo; Daearyddiaeth Drefol a Daeareg.

Ym Mlwyddyn 2, gall y modiwlau gynnwys Sgiliau Maes Daearyddol; Dulliau o Ymdrin â Daearyddiaeth Ddynol; Deall a Byw gyda Pheryglon Naturiol; Gwyddor y Pridd; Daearyddiaethau Gwleidyddol; Y Ddaear o'r Gofod a Daearyddiaeth Iaith.

Ym Mlwyddyn 3, gall y modiwlau gynnwys Daearyddiaeth Dreisiol; Meteoroleg; Mudo, Diogelwch a Dyngarwch; Tectoneg Platiau a Dinasoedd y Byd.

CÔD UCAS: L720
3 BLYNEDD LLAWN-AMSER
CYNNIG NODWEDDIADOL: AAB-BBB

BA DAEARYDDIAETH DDYNOL

Mae'r radd hon yn addas i fyfyrwyr sy'n gwybod mai daearyddiaeth ddynol yw eu diddordeb pennaf.

Ym Mlwyddyn 1, gall eich modiwlau gynnwys Daearyddiaethau Trefedigaethol ac Ôl-drefedigaethol; Daearyddiaeth Drefol; Newid Amgylcheddol Byd-eang - Yr Effaith Ddynol; Daeareg a Chynaliadwyedd.

Ym Mlwyddyn 2, gall y modiwlau gynnwys Sgiliau Gwaith Maes Daearyddol; Daearyddiaeth Greadigol; Modelu Trefol; Cyflwyniad i Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol a Pholisi a Datblygiad a Pholisi Economaidd Rhanbarthol.

Ym Mlwyddyn 3, gall y modiwlau gynnwys Prydain Wledig Gyfoes; Daearyddiaeth Hunaniaeth Genedlaethol; Modelu Amgylcheddol a Chyfalfaf a Llafur yn yr 21ain ganrif.

CÔD UCAS: F800
3 BLYNEDD LLAWN-AMSER
CYNNIG NODWEDDIADOL: AAB-BBB

BS_c DAEARYDDIAETH

Mae'r radd hon yn addas i fyfyrwyr sydd â mwy o ddiddordeb mewn daearyddiaeth ffisegol a gwyddoniaeth.

Ym Mlwyddyn 1, gall eich modiwlau gynnwys y Ddaear ar Waith; Cynaliadwyedd mewn Byd Bregus; Daeareg a Symudiadau Byd-eang: Tuag at Drefn Byd Newydd.

Ym Mlwyddyn 2, gall y modiwlau gynnwys Dadansoddi Data; Sgiliau Gwaith Maes Daearyddol; Ail-greu Newid Amgylcheddol Cwaternaid; Modelu Trefol a Chofnod Daearegol o Amgylcheddau'r Gorffennol.

Ym Mlwyddyn 3, gall y modiwlau gynnwys Modelu Gofodol a Monitro Dosbarthiad Rhywogaethau Planhigion; Tectoneg Platiau; Meteoroleg a Gwyddor Atmosfferig ac Amgylcheddau Trofannol Llaith.

CÔD UCAS: F830
3 BLYNEDD LLAWN-AMSER
CYNNIG NODWEDDIADOL: AAB-BBB

BS_c DAEARYDDIAETH A GEO-WYBODEG

Mae'r radd hon yn addas i fyfyrwyr sydd â diddordeb brwd mewn cyfrifiadura, daearyddiaeth neu fathemateg, ac mae'n rhoi sylw i gymhwyso technolegau newydd i ateb problemau daearyddol.

Ym Mlwyddyn 1, gall eich modiwlau gynnwys y Ddaear ar Waith; Newid Amgylcheddol Byd-eang: Yr Effaith Ddynol; Symudedd a Mudo a Daeareg.

Ym Mlwyddyn 2, gall eich modiwlau gynnwys Monitro Newid Amgylcheddol Byd-eang; Sgiliau Gwaith Maes Daearyddol; Amgylcheddau a Phrosesau Rhewlifol, a Ffiniau a Chysylltiadau mewn Daearyddiaeth Gymdeithasol.

Ym Mlwyddyn 3, gall y modiwlau gynnwys Modelu Amgylcheddol; Tectoneg Platiau a Geoffiseg Fyd-eang; Daearyddiaeth Dreisiol a Hinsawdd y 1000 o flynyddoedd Diwethaf.

CÔD UCAS: F840
3 BLYNEDD LLAWN-AMSER
CYNNIG NODWEDDIADOL: AAB-BBB

BSc DAEARYDDIAETH FFISEGOL

Mae'r radd hon yn addas i fyfyrwyr sydd â diddordeb arbennig mewn daearyddiaeth ffisegol.

Ym Mlwyddyn 1, gall eich modiwlau gynnwys Wyneb Newidiol y Ddaear; Daeareg; Daearyddiaeth Drefedigaethol ac Ôl-drefedigaethol, a Phobl, Lle a Chenedl.

Ym Mlwyddyn 2, gall y modiwlau gynnwys Afonydd; Cyflwyniad i Systemau Gwybodaeth Ddaeryddol; Gwyddor Amgylcheddol y Pridd, a Sgiliau Gwaith Maes Daearyddol.

Ym Mlwyddyn 3, gall y modiwlau gynnwys Tectoneg Platiau a Geoffiseg Fyd-eang; Meteoroleg a Gwyddor Atmosfferig; Modelu Gofodol a Monitro Dosbarthiad Rhywogaethau Planhigion, a Hinsawdd y 1,000 o Flynyddoedd Diwethaf.

CÔD UCAS: FL87
3 BLYNEDD LLAWN-AMSER
CYNNIG NODWEDDIADOL: CCD

BSc DAEARYDDIAETH GYDA BLWYDDYN SYLFAEN INTEGREDIG

Mae'r cynllun gradd 4 blynedd hwn yn targedu myfyrwyr sy'n dychwelyd i addysg neu fyfyrwyr sydd heb y cymwysterau angenrheidiol i gael mynediad uniongyrchol i un o'r Cynlluniau BA neu BSc. Ar ôl cwblhau'r flwyddyn gyntaf yn llwyddiannus, caiff myfyrwyr ddewis un o'n rhaglenni BA neu BSc.

Ym Mlwyddyn 0, gall eich modiwlau gynnwys Cyflwyniad i Ddelweddu Data; Daearyddiaeth Sylfaenol; Sgiliau Hanfodol y Gwyddonydd Naturiol a Delio â Data.

Ym Mlwyddyn 1, gall y modiwlau gynnwys Cynaliadwyedd mewn Byd Bregus; Symudiadau Byd-eang: Tuag at Drefn Byd Newydd; Daearyddiaeth Drefedigaethol ac Ôl-drefedigaethol a Daeareg.

Ym Mlwyddyn 2, gall y modiwlau gynnwys Sgiliau Gwaith Maes Daearyddol; Afonydd; Daearyddiaeth Greadigol a Hanes y Ddaear.

Ym Mlwyddyn 3, gall y modiwlau gynnwys Mudo, Diogelwch a Dyngarwch; Amgylcheddau Trofannol Llaith a Dinasoedd y Byd.

CÔD UCAS: FF86
3 BLYNEDD LLAWN-AMSER
CYNNIG NODWEDDIADOL: AAB-BBB

BSc GWYDDOR FFISEGOL Y DDAEAR

Mae'r radd hon yn addas i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn daearyddiaeth ffisegol a daeareg. Mae daeareg yn astudio'r ddaear - ei chyfansoddiad, y prosesau mewnol ac arwyneb, a'i hanes. Mae dosbarthiadau a gwaith maes ymarferol yn elfennau pwysig o fodiwlau daeareg yn Abertawe, gan roi profiad gwerthfawr i chi o adnabod a dehongli mwynau, creigiau, ffosiliau a mapiau daearegol, a dehongli'r dirwedd.

Ym Mlwyddyn 1, gall eich modiwlau gynnwys Gwyddor y Ddaear yn y Maes; Y Ddaear: Trosolwg o Ddaear; Cynaliadwyedd mewn Byd Bregus, a Newid Amgylcheddol Byd-eang: Yr Effaith Ddynol.

Ym Mlwyddyn 2, gall y modiwlau gynnwys Cofnodion Daearegol o Amgylcheddau'r Gorffennol; Sgiliau Gwaith Maes Daearyddol; Cyflwyniad i Systemau Gwybodaeth Ddaeryddol, a Modelu Trefol.

Ym Mlwyddyn 3, gall y modiwlau gynnwys Modelu Amgylcheddol; Amgylcheddau Trofannol Llaith; Meteoroleg a Gwyddor Atmosfferig, a Thectoneg Platiau a Geoffiseg Fyd-eang.

CÔD UCAS: LT77
3 BLYNEDD LLAWN-AMSER
CYNNIG NODWEDDIADOL: AAB-BBB

BA DAEARYDDIAETH AC ASTUDIAETHAU AMERICANAIDD

Cynllun Cydanrhydedd yw hwn lle bydd y myfyrwyr yn rhannu eu hamser rhwng astudio Daearyddiaeth ac Astudiaethau Americanaidd, ac mae'n addas i fyfyrwyr sydd â mwy o ddiddordeb mewn daearyddiaeth ddynol.

Byddwch yn astudio themâu daearyddol fel Pobl, Lle a Chenedl; Daearyddiaeth Greadigol; Mudo a Dyngarwch ynghyd â modiwlau Astudiaethau Americanaidd a all gynnwys: Cyflwyniad i Hanes a Diwylliant America; Y Profiad Americanaidd 1492-2000; Hil ac Ethnigrwydd: Persbectifau Americanaidd; Paradocs Pwer: Hil-laddiad a'r Ymerodraeth yn Taro'n Ôl: Rhyfel, Strategaeth a Defnyddio Grym yn y Cyfnod ar ôl y Rhyfel Oer.

Detholiad bach yn unig o'r modiwlau a gynnigir a restrir yma. I gael rhagor o fanylion am y modiwlau sydd ar gael, ewch i: www.swansea.ac.uk/geography/undergraduate

BLWYDDYN MEWN DIWYDIANT

F273

**BSc DAEARYDDIAETH
GYDA BLWYDDYN
MEWN DIWYDIANT**

F931

**BSc DAEARYDDIAETH
FFISEGOL GYDA
BLWYDDYN MEWN
DIWYDIANT**

F769

**BSc GWYDDOR
FFISEGOL Y DDAEAR
GYDA BLWYDDYN
MEWN DIWYDIANT**

GOFYNIION MYNEDIAD:

AAB - BBB

Rhaid treulio'r Flwyddyn mewn Diwydiant gyda chyflogwr neu sefydliad perthnasol, yn lleol, yn genedlaethol neu mewn gwlad dramor. Mae'r flwyddyn mewn diwydiant yn cynnig manteision helaeth, gan ei bod yn gyfle i chi gymhwyso eich sgiliau yn y gweithle a gwella eich CV a'ch rhagolygon cyflogaeth yn sylweddol yn sgil hynny. Bydd yr Adran yn cynnig cymorth ac arweiniad parhau i chi cyn eich

F554

**BA DAEARYDDIAETH
GYDA BLWYDDYN
MEWN DIWYDIANT**

L987

**BA DAEARYDDIAETH
DDYNOL GYDA
BLWYDDYN MEWN
DIWYDIANT**

lleoliad ym Mlwyddyn 2, trwy'r rhaglen baratoi a thrwy gyswllt rheolaidd â'r staff yn ystod eich lleoliad.

Mae'r adran yn gweithio gyda nifer o sefydliadau sy'n darparu ystod o gyfleoedd ar gyfer lleoliadau. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y myfyrwr fydd sicrhau lleoliad. Os na fyddwch wedi cael hyd i leoliad erbyn diwedd ail flwyddyn eich astudiaethau, byddwch yn trosglwyddo i'r rhaglen radd dair blynedd gyfatebol.

BLWYDDYN DRAMOR

F8R9

**BSc DAEARYDDIAETH
GYDA BLWYDDYN
DRAMOR**

L701

**BA DAEARYDDIAETH
GYDA BLWYDDYN
DRAMOR**

TL77

**BA DAEARYDDIAETH
AC ASTUDIAETHAU
AMERICANAIDD
GYDA BLWYDDYN
DRAMOR**

GOFYNIION MYNEDIAD: AAB - BBB

Bydd myfyrwyr ar ein cynlluniau Blwyddyn Dramor yn cael cyfle i dreulio blwyddyn dramor yn un o'n sefydliadau partner. Mae hwn yn gyfle ardderchog i brofi diwylliant gwahanol ac, yn dibynnu ar y cyrchfan, i ddatblygu sgiliau iaith gwerthfawr. I gael rhagor o wybodaeth am astudio dramor, ewch i:

www.swansea.ac.uk/international/opportunities

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch ein cyrsiau a'n gofynion mynediad, ewch i'n gwefan:

www.swansea.ac.uk/geography/undergraduate

Proffil Myfyriwr

SALLY WHITE

BSc DAEARYDDIAETH

“ Mae Daearyddiaeth wedi bod yn gwrs rhyfeddol i mi, am ei fod yn cynnig hyblygrwydd i ddewis modiwlau dynol a ffisegol, er mwyn i chi ddysgu am nifer helaeth o bynciau. ”

Sally White: Yn y cefn ar yr ochr dde

“ Dewisais Brifysgol Abertawe yn bennaf oherwydd yr adran ddaearyddiaeth ardderchog ac adnabyddus sy'n cynnig sawl cyfle i deithio dramor. Ar ben hynny, rydw i wastad wedi bod wrth fy modd yn gwersylla ar Benrhyn Gŵyr ac felly, roeddwn i wastad wedi bod eisiau byw yn Abertawe am fod y traethau mor hawdd eu cyrraedd. ”

Mae Daearyddiaeth wedi bod yn gwrs rhyfeddol i mi, am ei fod yn cynnig hyblygrwydd i ddewis modiwlau dynol a ffisegol, er mwyn i chi ddysgu am nifer helaeth o bynciau. Ar ben hynny, mae dysgu sgiliau fel gweithio mewn fîm, dadansoddi a rheoli amser yn hanfodol bywsig i'ch rhagolygon gwaith yn y dyfodol.

Bûm i'n ddigon ffodus i fynd ar lawer o deithiau maes gyda'm cwrs, gan gynnwys Penrhyn Gŵyr, Efrog Newydd a Sikkim. Aethon ni i Benrhyn Gŵyr yn gynnar iawn yn y flwyddyn gyntaf, ac mae'n ffordd wych o ddod i adnabod rhai o'ch cyd-fyfrwyr ar y cwrs a fydd yn eich cefnogi'n gyson trwy gydol y radd. Dysgon ni amrywiaeth o sgiliau craidd yn ystod y teithiau hyn, a helpodd hynny ni i gamu ymlaen trwy'r cwrs. Yn yr ail flwyddyn, roeddwn mewn grŵp o 20 a aeth ar daith ryfeddol i Efrog Newydd. Yn ystod y dydd, buom yn crwydro Efrog Newydd, o Harlem i'r Meatpacking District. Un noson, talodd y Brifysgol am docynnau i ni wyllo gêm bêl-fas, oedd yn brofiad gwefreiddiol mewn awyrgylch rhyfeddol. Ar ein

noson olaf, penderfynais i a rhai o'r myfyrwyr eraill ddringo i ben Canolfan Rockefeller, cyn cael swper yn ardal Brooklyn. Roedd yn un o wythnosau prysuraf a mwyaf rhyfeddol fy mywyd.

Yn y 3edd flwyddyn, cyflwynais gais i gymryd rhan yn y daith faes amlddisgyblaeth i Sikkim yn mynyddoedd Himalaia India. Roedd y grŵp yn cynnwys 5 myfyriwr ac un darlithydd yr un o feysydd bioleg, swoleg, daearyddiaeth ddynol a ffisegol. Fel grŵp o bobl o wahanol bynciau, roedd cyfarfod ag amrywiaeth mor eang o bobl a darlithwyr yn brofiad gwych. Cawsom ein rhoi mewn timau amlddisgyblaeth i weithio ar brosiect a dysgu oddi wrth ein gilydd. Roedd hwn yn brofiad ▶

amhrisiadwy ar yr adeg hon yn fy ngradd, gan gynnig golwg wahanol i mi ar ymchwil. Roedd y gweithgareddau yn Sikkim yn anghyffredin; un diwrnod byddem yn casglu samplau dŵr ac yn cynnal arolygon infertebratau ger argae trydan dŵr a'r diwrnod nesaf, byddem yn cwrdd â myfyrwyr o Brifysgol Sikkim. Ar ben hynny, roedd llawer o amser rhydd gyda'r nos i ymlacio a chwarae cardiau. Buom yn ddigon ffodus i fod yn Sikkim

yn ystod Diwali, gŵyl Indiaidd y goleuni. Roedd y dref yn llawn o oleuadau prydrferth a dawnswyr mewn gwisgoedd lliwgar, a chawsom lawer o hwyl mewn bar Karaoke gyda phobl leol Sikkim. Yn ystod y daith, daethom yn agos iawn fel grŵp; roedd hi'n daith unwaith mewn oes a gwnaethom ffrindiau oes. Yn dilyn cyngor ardderchog gan fy narlithwyr ynghylch gyrfaoedd yn y dyfodol, gwnes gais am raglenni graddedig mewn

logisteg. Rydw i wedi cyrraedd y cam cyfweiliad a chanolfan asesu; fodd bynnag, mae'r sgiliau y ces i eu dysgu gan Ddaearyddiaeth ac Abertawe yn wych ar gyfer byd busnes. Yn gyffredinol, bydd gadael Abertawe yn torri fy nghalon, achos y rhain oedd 3 blynedd gorau fy mywyd a byddwn i'n bendant yn argymhell y cwrs i unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno cais. ”



Adeiladwyd Gangtok, prifddinas drawiadol Sikkim, ar lethr serth gyda golygfeydd godidog dros Kangchendzonga, y trydydd mynydd uchaf yn y byd. Amgylchynir y ddinas gan fforest law isdrofannol, terasau reis ac mae'n baradwys i ieir bach yr haf a thegeirianau. Mae Gangtok yn adnabyddus fel canolfan i astudio crefydd ac athroniaeth Fwdhaidd.

Bydd cyfle i'r myfyrwyr gyfarfod ag academyddion o Brifysgol Sikkim, mynachod Bwdhaidd, gwleidyddion lleol a Gweinidogion Sikkim, ochr yn ochr â'u gwaith prosiect mewn grwpiau. Byddant yn ymchwilio i ffenomen y monswyn, bioddaearyddiaeth a bioamrywiaeth, ecodwristiaeth, a mudo.

Drwy'r cwrs maes hwn, caiff y myfyrwyr brofiad unigryw o weithio mewn timau amlddisgyblaeth i archwilio'r cysylltiad rhwng amgylcheddau a chymdeithas.

Proffil Myfyriwr

BEN TOMOS WALKING

BSc DAEARYDDIAETH

“Roedd astudio Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Abertawe yn brofiad anhygoel y byddwn wrth fy modd yn ei ailadrodd.

Mae’r adran yn lle mor gyfeillgar a chefnogol a’m helpodd i archwilio fy niddordebau mewn ffyrdd ymarferol. Roedd hyn yn cynnwys gwaith labordy, fel efelychu glaw ar lethr, a theithiau maes. Dyma pryd y cwrddais â rhai o’m ffrindiau gorau yn ystod fy ngradd.

Mae’r adran a chymdeithas y myfyrwyr (GeoSoc) yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned. Fe wnes i fwynhau, yn arbennig, astudio rhan o’m gradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd parhau yn Gymraeg yn ddefnyddiol wrth bontio i addysg uwch, gyda darlithiau a myfyrwyr rhagorol a chyfeillgar. Roedd lleoliad Abertawe yn atyniad

mawr i mi. Mae’r traeth yn eithriadol o agos at y campws ac mae’n lle gwyh i dreulio diwrnod yn ymlacio. Mae’n un o’r pethau rwy’n ei golli fwyaf. Mae’r ddinas ei hun yn gyffyrddus o ran maint. Drwy’r cymdeithasau sydd ar gael yn y Brifysgol, cefais gyfle i wneud llawer o weithgareddau newydd, fel caiaio ac ymuno â chôr. Dywedir yn aml mai’r teithiau maes yw’r rhan orau o radd mewn Daearyddiaeth. Byddwn i’n cytuno’n bendant gan fod Abertawe wedi cynnig llawer o gyfleoedd i fynd ar deithiau maes yn ystod fy nhair blynedd. Cefais archwilio daeareg arfordir godidog Gŵyr a Sir Benfro yn fy mlwyddyn gyntaf. Fel rhan o’r radd, mae holl fyfyrwyr yr ail flwyddyn yn mynd ar ymweliad maes dramor. Cefais i fynd i Vancouver. Roeddwn wrth fy modd yn teithio o amgylch rhannau

“Yn ystod y cwrs maes, cefais gyfle i fynd i’r afael â maes rheoli trychineb mewn lleoliad mor unigryw. Y daith hon, yn bendant, helpodd fi i benderfynu ar lwybr astudio a gyrfa ar gyfer y dyfodol.”

o British Columbia a gweld tirweddau ar raddfa gwbl wahanol i’r Deyrnas Unedig. Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i ymlacio hefyd, e.e. trwy wyllo gêm hoci a thaflu peli eira. Roedd hwn yn bendant yn un o uchafbwyntiau fy nhair blynedd yn Abertawe.

Cefais gyfle i fynd ar daith faes wych arall, sef taith ryngddisgyblaeth i Sikkim, India. Lleolir Sikkim yn nhrefnryniau’r Himalaia ac mae’n lle diddorol dros ben. Roedd Biolegwyr, Swolegwyr a Daearyddwyr yn rhan o’r wibdaith, ac fe ehangodd ►



fy ngorwelion mewn ffordd syfrdanol ar lawer o faterion gwahanol. Roedd gweld amgylchedd a diwylliant mor amrywiol yn anhygoel. Roedd y bwyd yn wych yno hefyd! Yn ystod y cwrs maes, cefais gyfle i fynd i’r afael â maes rheoli trychinebau mewn lleoliad mor unigryw. Y daith hon, yn bendant, helpodd fi i benderfynu ar lwybr astudio a gyrfa ar gyfer y dyfodol.

Roedd gadael Abertawe yn benderfyniad anodd a minnau

wedi dwlu ar fy amser yno. Cefais sylfaen gadarn yno a’r hyder i ddilyn cwrs Meistr mewn Rheoli Trychinebau Rhyngwladol. Rydw i mor ddiolchgar i’r staff cefnogol a ddysgodd lawer o sgiliau i mi a’m hysbrydoli i ddilyn fy niddordebau. Rwy’n sicr na fyddwn wrthi’n cwblhau astudiaeth ôl-raddedig oni bai am y darlithiau brwdfrydig a chefnogol a’r teithiau anhygoel i Vancouver a Sikkim.”

CYFLOGADWYEDD A DEWISIADAU GYRFA

Mae ein hadran Ddaeryddiaeth yn gweithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd y Brifysgol i sicrhau eich bod yn datblygu ac yn ehangu eich sgiliau cyflogadwyedd. Byddwch nid yn unig yn dysgu sut mae ysgrifennu CV effeithiol, ond hefyd yn cael anogaeth i roi cynnig ar brofiad gwaith, gwirfoddoli, interniaethau a lleoliadau gwaith.

Mae sgiliau a hyfforddiant cyflogadwyedd craidd yn rhan o wead yr holl raglenni gradd Ddaeryddiaeth ac mae modiwl profiad gwaith pwrpasol, a gynigir ym Mlwyddyn 3, yn caniatáu i fyfyrwyr gael profiad perthnasol fel daearyddwyr proffesiynol yn ystod lleoliad pedair wythnos. Mae cyfle hefyd i'r holl fyfyrwyr gwblhau Gwobr Cyflogadwyedd Abertawe fel rhan o'u hastudiaethau a chymryd rhan yn rhaglen y Brifysgol, leithoedd i Bawb, gan ychwanegu hyfforddiant sylfaenol mewn iaith Ewropeaidd at eu gradd mewn Daearyddiaeth.

Caiff myfyrwyr ymuno â chlybiau a chymdeithasau hefyd, yn ogystal â'r rhaglen GradIntel sy'n cysylltu ein graddedigion dawnus â chyflogwyr.

Sgiliau Allweddol:

Bydd ein holl fyfyrwyr yn datblygu ystod o sgiliau allweddol, gan gynnwys trefnu a

chyfathrebu personol, canfod a gwerthuso problemau, casglu, dadansoddi a chyflwyno data, llunio adroddiadau a chyflwyniadau (ysgrifenedig a llafar), gweithio mewn tîm, a llythrennedd cyfrifiadurol.

Mae gyrfaoedd ein graddedigion yn cynnwys:

- Gwyddonydd Dalgylchoedd (Dŵr Cymru)
- Ecologydd (Natural England)
- Prosesydd Data Daearyddol (Western Power Distribution)
- Arbenigwr Arweiniol (Reuters)
- Syrffewr (St Modwen)
- Ymchwilydd (Uned Hanes Naturiol y BBC)
- Datblygu Rheolwyr (Menzies Aviation)
- Dadansoddwr Data (PHS Group)
- Swyddog Tai (Cyngor Dinas Caerdydd)
- Meteorolegydd (Canolfan Dywydd y BBC)
- Newyddiadurwr (US Weekly)

Proffil Cyn-fyfyrwr

DERI MCDONAGH

BSc DAEARYDDIAETH FFISEGOL



“Fe wnes i gwblhau gradd israddedig mewn Daearyddiaeth Ffisegol ym Mhrifysgol Abertawe (BSc, 2.i) a dewisais ddychwelyd i gwblhau gradd MSC yma mewn Dynameg yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd (Teilyngdod). Gan fy mod i wir wedi mwynhau fy mhrofiad israddedig yma, gwyddwn mai dychwelyd oedd y penderfyniad cywir.

O safbwynt academaidd, roedd yn gwrs addas iawn i mi. Rydw i wrth fy modd yn yr awyr agored ac yn mwynhau profiadau ymarferol yn y maes ac mae gen i ystod eang o ddiddordebau. Roedd fy ngradd israddedig a'm gradd meistyr yn cynnig hyn i gyd, o ymweliadau maes rheolaidd â ddileoedd daearegol i daiith faes am wythnos ar ynys hyfryd Mallorca yn yr ail flwyddyn. O ran darlithiau, gallwch ddysgu am hanes cylchoedd rhewlif ryw fore, ac am ecoleg planhigion yn y prynhawn, sy'n rhoi llawer o gyfleoedd i arbenigo yn eich diddordebau penodo. Mae'r darlithwyr, y

staff a'r cynorthwyr labordy yn gyfeillgar ac yn frwd iawn am eu pynciau a byddant yn falch o'ch helpu gydag unrhyw gwestiynau a all fod gennych. Mae datblygu eich astudiaeth eich hun ar gyfer eich traethawd estynedig yn brofiad pleserus iawn, ac mae arbenigwyr o'r radd flaenaf wrth law i'ch tywys trwy'r broses.

Mae Abertawe yn brifysgol hyfryd, mewn llecyn delfrydol ger Penrhyn Gŵyr (y lle cyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael ei ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol). Ar fy Niwrnod Agored cyntaf, penderfynais mai hwn oedd y lle i mi cyn gynted ag y cyrhaeddais y campws a gweld y môr o lawnt y Brifysgol. Mae gan y Brifysgol bopeth sydd ei angen arnoch mewn un lle, ac mae undeb y myfyrwyr yn weithgar ac yn cysylltu â myfyrwyr bob amser yn ystod

cyfnod yr arholiadau gan gynnwys trefnu digwyddiadau lleihau straen. Bellach, rwy'n Swyddog Monitro'r Amgylchedd i Gyfoeth Naturiol Cymru (y corff sy'n rheoli'r amgylchedd yng Nghymru) a fyddwn i'n bendant ddim wedi gallu dechrau'r yrfa hon heb y sgiliau a ddysgais trwy fy ngraddau BSc ac MSC.

Petawn i'n cynghori unrhyw fyfyrwr sy'n ystyried dewis Abertawe, byddwn i'n dweud ei fod yn lle cyfeillgar a chroesawus sy'n ymfalchïo mewn ymchwil ac y dylen nhw fanteisio i'r eithaf ar eu hamser yma. Dewisais i ddychwelyd i astudio yma ar ôl graddio ac rwy'n gweithio bellach i Gyfoeth Naturiol Cymru ar y campws, felly gallech chi ddweud bod y lle wedi cael gafael ynof. ”



Proffil Cyn-fyfyriwr

ALICE MATHIAS

BSc DAEARYDDIAETH

YMCHWLYDD IAU, UNED HANES NATURIOL Y BBC

“Rydw i’n ymchwilydd iau yn Uned Hanes Naturiol y BBC ar gyfer rhaglenni Springwatch/Autumnwatch/Winterwatch, ac ar adegau eraill, rwy’n gweithio ar raglenni teledu eraill neu mewn canolfan achub bywyd gwyllt o’r enw “Secret World”. Fi sydd â’r swydd orau yn y byd, yn fy marn i! Mae gweithio ar raglenni teledu byw yn gyffrous iawn ac mae pob dydd yn wahanol. Mae gallu cyfuno hynny â’m cariad at anifeiliaid a bywyd gwyllt yn well byth.

Pan fyddaf yn dweud wrth fy nghydweithwyr am fy ngradd, byddan nhw’n chwerthin yn aml, gan feddwl nad yw hi’n berthnasol o gwbl i’r diwydiant rwy’n gweithio ynddo nawr. Ond rwy’n tueddu i anghytuno. Mae cymaint o elfennau o hanes naturiol yn berthnasol i ddaearyddiaeth, o’r ffurfiau tir eang a’r capiau iâ sy’n toddi a welwyd ar raglen Planet Earth 2 i’r

llygredd plastig ar raglen Blue Planet 2. Ar ben hynny, defnyddiaf gynifer o’r sgiliau trosglwyddadwy o’m gradd ddaearyddiaeth yn fy ngwaith bob dydd. Mae gweithio’n unol â therfynau amser caeth yn bwysig iawn mewn teledu byw, yn ogystal â gweithio’n dda mewn fim ac, yn fy swydd i yn arbennig, mae’r sgiliau ymchwil a ddysgais trwy fy ngradd yn amhrisiadwy. Ar ben hyn oll, bu’r sgiliau a ddysgais ar y teithiau maes y bûm i’n rhan ohonynt, yng Nghymru ac yng Nghanada a mynyddoedd Himalaia India, yn ddefnyddiol dros ben o ran fy mharatoi i weithio ‘ar leoliad’, lle byddwn yn treulio diwrnodau allan yn yr awyr agored, ym mhob tywydd tan yn hwyr y nos ... yn union fel taith ddaearyddiaeth dda! Ar ôl treulio 3 blynedd yma yn yr Adran Ddaearyddiaeth ym Mhrifysgol Abertawe, mae’n deg dweud mai astudio yma oedd un o benderfyniadau gorau fy mywyd.”

Proffil Cyn-fyfyriwr

TOMAS HOWELLS

**BSc DAEARYDDIAETH
INTERN, CYNLLUN
DATBLYGU RHEOLWYR,
MENZIES AVIATION,
HEATHROW, LLUNDAIN**

“Mae’n deg dweud mai astudio yn Abertawe oedd un o benderfyniadau gorau fy mywyd. Datblygais berthynas wych gyda llawer o’r darlithwyr, ac fe wnaeth cyfeillgarwch y staff fy helpu i ymgartrefu ac ymgolli’n llwyr yn y cwricwlwm, gan wneud fy amser yn Abertawe yn bleserus dros ben. Mae Abertawe yn ffodus i gael amrywiaeth eang o gymdeithasau, fel y Gymdeithas Ddaearyddiaeth. Mae’r gymdeithas yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau, fel gwibdaith i Amsterdam ar ddiwedd y semestr cyntaf, a Dathliad Nadolig blynyddol yr adran Ddaearyddiaeth ym mwyty’r Grape and Olive. Mae’r Dathliad Nadolig yn ffordd wych o ymlacio ar ddiwedd semestr prysur.



Mae’r darlithwyr yn bresennol hefyd ac mae’n gyfle gwyb i gymdeithasu â’r staff a chyd-fyfyrwyr dros ginio.

Beth bynnag yw eich diddordebau mawr a bach neu eich dyheadau ar gyfer y dyfodol, bydd staff yr Adran Ddaearyddiaeth yn Abertawe yn cynnig cyfleoedd, cymorth ac anogaeth di-ben-draw i’ch helpu i gyrraedd eich nod.

Y peth gorau am astudio Daearyddiaeth yw ehangder y pwnc a bod y setiau sgiliau y byddwch yn eu dysgu ac yn eu datblygu dros dair blynedd yn berthnasol i lawer o sectorau busnes

gwahanol. Ar ôl graddio, rwy’n gweithio bellach i gwmni awyrennau o’r enw Menzies Aviation ar gynllun graddedig datblygu rheolwyr yn Heathrow, Llundain. Rwy’n cydweithio’n agos â thîm tanwydd a datblygu busnes y cwmni. Mae hyn yn dangos y gall astudio Daearyddiaeth gynnig cyfleoedd gwyb i chi ar ôl graddio, ac y gallech weithio mewn unrhyw fath o ddiwydiant. Mae’r sgiliau a ddysgais dros y tair blynedd yn sicrhau wedi fy helpu i ddatblygu fel unigolyn, ac mae hynny’n dangos bod astudio Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Abertawe yn gyfle gwyb na ddylid ei golli.”



YMCHWIL Y STAFF

Mae gan ein staff gyfoeth o arbenigeddau ac mae llawer ohonynt yn fynd-enwog yn eu maes. Dyma rai uchafbwyntiau:

Yr Athro Siwan Davies:
enillydd Gwobr Phillip Leverhulme mewn Daeryddiaeth a chyd-datblygwr a chyflwynydd cyfres deledu Her yr Hinsawdd ar S4C.

Yr Athro Marcus Doel:
Disgrifiwyd ei gyhoeddiad diweddar 'Geographies of Violence' fel "gwaith syfrdanol o harddwch apocalyptaidd a chatastroffiau gosgeiddig."


Yr Athro Stefan Doerr: Stefan oedd y person ifancaf erioed i dderbyn Medal Phillippe Duchafour gan Undeb Geowyddorau Ewrop. Yn ogystal, derbyniodd Gymrodoriaeth Ymchwil Leverhulme i astudio bygythiadau tanau gwyllt.

Mae'r Athro Tavi Murray yn awdurdod byd ar rewlifeg ac yn 2007, derbyniodd y Fedal Begynol gan Ei Mawrhydi'r Frenhines, am ei chyfraniad eithriadol i ymchwil begynol.

8 FED
YN Y
DEYRNAS
UNEDIG

O RAN EFFAITH YMCHWIL

(REF, 2014)



© Contains modified Copernicus Sentinel

Dr Amanda Rogers oedd enillydd Medal Dillwyn gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru. Dyfernir y fedal i ymchwilwyr neilltuol ar ddechrau eu gyrfa yn y Celfyddydau Creadigol a'r Dyniaethau.

Mae'r Dr Jacqueline Rosette yn Gymrawd Ymchwil y Gymdeithas Frenhinol yn y Brifysgol ac yn awdurdod ar ymchwil synhwyro o bell mewn fforestydd. Treuliodd Jackie amser yn gweithio

yn y Goddard Space Flight Centre lle bu'n gweithio ar gynllun System Monitro Carbon NASA.

Mae'r athro Rory Walsh yn un o arbenigwyr pennaf y byd ar effeithiau torri a thrin coed a newid yn yr hinsawdd ar erydiad ac adnewyddu fforestydd glaw ym Morneo.

Mae'r Athro Adrian Luckman yn arbenigwr mewn rhewlifeg ac arsylwi gan ddefnyddio lloeren. Treuliodd Adrian a'i

dîm flynyddoedd yn monitro'r hollt yn Ysgafell Iâ Larsen C a ymrannodd o'r diwedd yng Ngorffennaf 2017 gan greu mynydd iâ sydd yr un maint â thalaith Delaware ac yn pwyso triliwn o dunelli. Mae'n sicr bron mai ymchwil yr ysgrafell iâ yw'r stori fwyaf am Brifysgol Abertawe yn y cyfryngau ers dechrau'r cyfnod cofnodi. Cafodd sylw fwy na 6000 o weithiau gan ffynonellau newyddion mewn 100 o wledydd.

Mae'r Adran Ddaeryddiaeth wedi mabwysiadu Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ac mae'n falch o gyfrannu'n weithredol at eu cyflawni trwy gyfrwng ymchwil sy'n arwain y byd.



delwedd a ddarperir gan y Cenhedloedd Unedig



NOD 6 DŴR GLÂN A GLANWEITHDRA

Tân a Dŵr: Rhagfynegi a lleihau'r perygl y bydd lludw o danau gwyllt yn llygru dŵr.

Bob blwyddyn, bydd tanau'n llosgi hyd at ~4% o'r arwynebedd tir â llystyfiant ar draws y byd, gan gynnwys dalgylchoedd coedwigoedd sy'n darparu 60% o'r dŵr i'r 100 dinas fwyaf yn y byd. Mae'r lludw a ddyddodir ar y llawr gan y tanau'n llawn llygryddion posibl ac yn hawdd iawn ei gludo gan erydiad dŵr. Mae lludw, felly, yn fygythiad difrifol i ecosystemau dŵr a gwyddom eisoes ei fod yn effeithio ar ansawdd dŵr gydag effaith ddifrifol ar y boblogaeth a'r amgylchedd (h.y. cyfyngiadau ►



dŵr croyw, ewtroffigedd, ffyniant algae, etc), a chostau sylweddol adfer gwasanaethau ecosystemau dŵr (e.e. \$32m yn Denver yn 1996 a 2002, \$38m yn Canberra yn 2003, £3m yn Belfast yn 2011, £1m yn Fort MacMurray yn 2016). Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes gennym fodelau sy'n gallu rhagfynegi patrymau cludo lludw a chefnogi dylunio strategaethau i leihau'r perygl o halogi dŵr ar ôl tân.

Mae'r prosiect hwn, a arweinir gan Brifysgol Abertawe, yn dod â thîm rhyngwladol o wyddonwyr blaenllaw a defnyddwyr (Dŵr Cymru, Gwasanaeth

Tân ac Achub De Cymru, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyfoeth Naturiol Cymru) at ei gilydd i lenwi'r bwlch allweddol hwn o ran gwybodaeth ac offer. Ein nod yw datblygu offeryn ar gyfer defnyddwyr a fydd yn rhagfynegi patrymau lludw a'r perygl y bydd yn halogi cyrff dŵr ar ôl tanau gwyllt, a chynorthwyo rheolwyr tir i ddylunio strategaeth lliniaru effeithiol i amddiffyn ansawdd dŵr, y cyflenwad dŵr yfed, ac ecosystemau sy'n gysylltiedig â dŵr.

Mae ein gwaith maes yn Sikkim yn cyfrannu at Nod 2 - Dim Newyn, Nod 7 - Ynni fforddiadwy a

glân, Nod 11 Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy a Nod 17 - partneriaethau ar gyfer y nodau. Mae talaiith Sikkim yn lleoliad unigryw ar gyfer gwaith maes - mae'n fydenwog am ei hamgylchedd trawiadol ym mynyddoedd yr Himalaia, ei bioamrywiaeth cyfoethog a'i hymrwymiad pendant i hybu gwerthoedd amgylcheddol. Yn ystod y cwrs maes, bydd y myfyrwyr yn gweithio'n unigol ac mewn grwpiau i gyflawni prosiectau ymchwil rhyngddisgyblaeth sydd â phum thema: trefoli, trydan dŵr, amaethyddiaeth, ecodwristiaeth a pheryglon naturiol.

CYNWYSOLDEB

Mae ein staff Daearyddiaeth yn mynd ati i hyrwyddo cynwysoldeb ac yn annog yr holl fyfyrwyr blwyddyn gyntaf i ddod i adnabod ei gilydd. Yn ystod yr wythnosau astudio cyntaf, bydd pob myfyriwr yn cymryd rhan mewn alldeithiau maes lleol i ogofâu Porth yr Ogof, Bae'r Tri Chlogwyn ac ardal Abertawe ac yn gweithio mewn grwpiau i lunio taflen ynghylch y daith.

Ar ben hynny, mae ein cynllun BSc Gwyddor Ffisegol y Ddaear yn cynnwys modiwl gorfodol sy'n seiliedig ar gwrs maes preswyl ar ddau benwythnos yn Sir Benfro. Mae hyn nid yn unig yn rhoi profiad o waith maes daearegol, ond hefyd yn hyrwyddo cynwysoldeb ac yn helpu myfyrwyr i ddod i adnabod myfyrwyr eraill a'r staff mewn lleoliad gwahanol sy'n llai ffurfiol na'r ddarlithfa.



“ Rydw i wedi bod ar lawer o deithiau maes gwahanol yn ystod fy nhair blynedd. Roedden nhw i gyd yn hwyl ac fe wnes i ddatblygu llawer o wybodaeth a phrofiad. Y peth pwysicaf yw fy mod wedi dod i adnabod fy nghyd-fyfyrwyr yn well. ”


Andy Yipp, BSc Daearyddiaeth

“ Cefais groeso cynnes yn sgîl y gefnogaeth barhaus i fyfyrwyr. Cefais gymorth bob amser pan oedd anawsterau'n codi ar fy nghwrs a chymorth iaith yn arbennig. ”

Elisa Casentini, BA Daearyddiaeth Ddynol

“ Mae'r adran yn lle mor gyfeillgar a chefnogol a'm helpodd i archwilio fy niddordebau mewn ffyrdd ymarferol. Roedd y rhain yn cynnwys gwaith labordy, fel efelychu glaw ar lethr, a theithiau maes. Dyma pryd y cwrddais â rhai o'm ffrindiau gorau yn ystod fy ngradd. Mae'r adran a chymdeithas y myfyrwyr (GeoSoc) yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned. ”

Ben Tomos Walking, BSc Daearyddiaeth



DEWISIADAU AC YSGOLORIAETHAU CYMRAEG

Buom yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ers rhai blyneddodd bellach ac mae gennym staff penodedig sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â nifer o staff eraill sy'n siarad Cymraeg.

Mae ein cynlluniau gradd mewn Daearyddiaeth yn gymwys ar gyfer Ysgoloriaethau Cymhelliant, gan ein bod yn cynnig 40 credyd neu ragor trwy'r Gymraeg ar bob lefel. Mae ein cynllun BSc Daearyddiaeth, sy'n cynnig 80 credyd ar bob lefel, hefyd yn gymwys fel rheol ar gyfer y Brif Ysgoloriaeth. Rydym hefyd yn croesawu myfyrwyr a all fod am astudio un neu ddau yn unig o fodiwlau penodol trwy gyfrwng y

Gymraeg. Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn sgîl gwerthfawr mewn nifer o sectorau cyflogaeth sy'n recriwtio daearyddwyr, gan gynnwys asiantaethau a sefydliadau amgylcheddol, awdurdodau cynllunio gofodol ac economaidd a'r sector preifat, yn ogystal â byd addysg. Ymhliith y modiwlau darlithiau a ddysgir yn Gymraeg, mae cyflwyniadau i faterion amgylcheddol byd-eang o

safbwynt dynol a ffisegol, ynghyd â modiwlau mwy datblygedig ar beryglon naturiol a daearyddiaeth wleidyddol. Mae pwyslais pendant hefyd ar hyfforddiant sgiliau ac ymchwil annibynnol. Bydd cael eich dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwella eich rhagolygon gradd a gyrfaeodd mewn Daearyddiaeth a meysydd cysylltiedig.

MYFYRWYR RHYNGWLADOL

*a blynyddoedd
sylfaen*

Os byddwch yn fyfyrwr Rhyngwladol (o'r tu allan i'r UE) sy'n astudio Blwyddyn Sylfaen mewn Gwyddoniaeth, bydd eich gradd yn dechrau yn Y Coleg.

Mae'r Coleg yn cynnig llwybrau academiaidd ym Mhrifysgol Abertawe sy'n arwain at raddau israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r Coleg yn darparu grwpiau addysgu llai, ac athroniaeth addysgol gefnogol â gwedd personol. Pan fyddwch yn astudio yn Y Coleg, byddwch yn fyfyrwr llawn-amser yn y Brifysgol o'r cychwyn cyntaf.

Mae pob cwrs ar gael â dewis o ddyddiadau dechrau a hyd cyrsiau, yn dibynnu ar eich cymwysterau a'ch medrusrwydd mewn Saesneg.

Mae gan y Coleg adeilad pwrpasol newydd sbon ar Gampws y Bae ger y traeth. Bydd neuadd breswyl newydd â 411 o welyau ar gyfer myfyrwyr Y Coleg yn unig, hefyd ar Gampws y Bae.

Rhagor o wybodaeth:
www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/colegau/y-coleg



YMWELD Â PHRIFYSGOL ABERTawe

a'ch cynnig

Mae'n bwysig dros ben eich bod yn dewis y brifysgol a'r cwrs cywir. Ar ôl ymgeisio, cewch wahoddiad i ddod i Ddiwrnod Darganfod Prifysgol Abertawe.

Bydd cyfle i chi gael sgwrs un-i-un gyda'r darlithwyr a thrafod eich cynnig. Cofiwch fod ein cynigion yn gallu bod yn hyblyg ac felly bydd hwn yn gyfle i chi drafod eich amgylchiadau personol neu ofyn cwestiynau am y cwrs ei hun.



YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae Prifysgol Abertawe yn dyfarnu nifer o Ysgoloriaethau Rhagoriaeth, gwerth £3000 dros dair blynedd i'r holl fyfyrwyr o'r Deyrnas Unedig* sy'n cael AAA yn eu harholiadau Safon Uwch (neu gyfwerth); Ysgoloriaethau Teilyngdod, gwerth £2000 dros dair blynedd, i'r holl fyfyrwyr sy'n cael AAB yn eu harholiadau Safon Uwch (neu gyfwerth).

Edrychwch ar www.swansea.ac.uk/cy/y-ysgoloriaethau i gael yr wybodaeth a'r telerau ac amodau diweddaraf.

*Gellir dyfarnu'r ysgoloriaeth i fyfyrwyr o'r UE hefyd, ewch i'r wefan i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Dyddiadau Pwysig O RAN EICH CAIS



MEDI

Ceisiadau UCAS
yn agor

HYD/TACH

Dod i un o
ddiwrnodau
Darganfod
Prifysgol Abertawe

15 ION

Dyddiad cau
ceisiadau UCAS
*(ond byddwn yn
dal i dderbyn ceisiadau
ar ôl y dyddiad hwn)*

ION - MEH

Rhagor o gyfleoedd
i ymweld â'r
Brifysgol a chael
sgwrs un-i-un
gyda'n darlithwyr

MAW - MEH

Cyflwyno cais am
gyllid a llety

MEDI

Cyrraedd a'r
wythnos goeso!



CYRRAEDD YMA

LLAI NAG

1 AWR

O GAERDYDD

LLAI NA

3 AWR

O LUNDAIN

LLAI NA

3 AWR

O BIRMINGHAM

LLAI NA

4 AWR

O FANCEINION



DEALL 4 Termau

Pan fyddwch yn gwneud cais am le mewn Prifysgol, byddwch yn gweld termau sydd o bosib yn anghyfarwydd. Rydym wedi ceisio dileu rhai o'r pryderon trwy lunio canllaw 'Deall y Termau' sy'n egluro'r termau a ddefnyddir amlaf.

Addasiad: Os bydd eich graddau yn well na'r disgwyl ac yn rhagori ar y graddau yn eich cynnig amodol, cewch 'addasu' a dewis lle gwahanol.

Newid cynnig y cwrs: Gall eich Prifysgol neu Goleg ystyried gwneud hyn os na fyddwch yn bodloni gofynion mynediad eich dewis gwreiddiol.

Dewis: Y cwrs y byddwch yn gwneud cais amdano. I ddechrau, bydd UCAS yn caniatáu i chi wneud cais am 5 cwrs neu lai.

Clirio: Mae Clirio yn gyfle i fyfyrwyr chwilio am le ar gwrs ar ôl 30 Mehefin, mewn unrhyw Brifysgol neu Goleg os na chynigiwyd lle iddynt yn barod.

Cynnig Amodol: Llongyfarchiadau, rydym wedi rhoi Cynnig Amodol i chi. Ystyr hyn yw bod gennych le os byddwch yn bodloni'r amodau, sydd fel arfer yn golygu cyflawni graddau penodol neu bwyntiau tariff yn eich arholiadau.

Cynnig Diamod: Llongyfarchiadau, mae gennych Gynnig Diamod. Ystyr hyn yw bod gennych chi le gyda ni!

Cadarnhad: Penderfyniad gan y Brifysgol neu'r Coleg, unwaith mae canlyniadau'r arholiadau wedi'u cyhoeddi, i dderbyn neu wrthod y cais.

Gohirio: Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr sydd am ddechrau yn nes ymlaen. Bydd UCAS yn caniatáu i chi ohirio ddwywaith cyn gorfod ailymgeisio.

Dosbarth graddau: Pan fyddwch yn graddio, cewch un o'r dosbarthiadau gradd canlynol: 1af, 2.i, 2.ii neu 3ydd.

Gofynion Mynediad: Y rhain yw'r graddau rydym yn argymhell bod myfyrwyr yn eu cael i ymuno â'n cyrsiau. Bydd gan bob cwrs ei ofynion ei hun. Mae'r rhain i gyd i'w gweld ar ein gwefan.

Dewis Pendant: Hwn fydd eich dewis cyntaf o ran prifysgol, felly gofalwch roi'r lle yma i Brifysgol Abertawe!

Blwyddyn Sylfaen: Cewch ddilyn gradd BSc gyda blwyddyn sylfaen integredig os na fyddwch yn bodloni'r gofynion mynediad i'r cwrs BSc. Ystyr hyn yw eich bod chi'n astudio am flwyddyn ychwanegol ar y dechrau gan ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau i'r lefel sydd ei hangen arnoch i ddechrau'r cwrs BSc.



GWYBODAETH BWYSIG - DARLLENWCH OS GWELWCH YN DDA

Mae'r neges ganlynol yn cynnwys gwybodaeth bwysig iawn. Darllenwch y neges cyn defnyddio'r llyfryn hwn.

Argraffwyd y llyfryn hwn yng ngwanwyn 2018. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y rhaglenni a'r modiwlau israddedig mewn Daearyddiaeth y mae Prifysgol Abertawe yn bwriadu eu rhedeg ar gyfer myfyrwyr sy'n bwriadu cychwyn yn y brifysgol yn hydref 2019.

Gwnaed pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn ddefnyddiol ac yn gywir ar adeg ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd newidiadau, er enghraifft, i raglenni, lleoedd astudio, cyfleoedd am leoliad, cyfleusterau neu ffioedd yn angenrheidiol am resymau staffio, ariannol, rheoleiddio ac academaidd dilyn.

Byddwn yn ymdrechu i wneud cyn lleied â phosibl o newidiadau bob amser ac i roi gwybodaeth briodol i ddarpar fyfyrwyr. Bydd yr wybodaeth sydd yn y llyfryn yn cael ei diweddaru bob chwarter yma: www.swansea.ac.uk/undergraduate-programme-changes/ ac ar y tudalennau cwrs ar-lein yma: www.swansea.ac.uk/undergraduate-programme-changes/ and on the online course pages at: www.swansea.ac.uk/geography/undergraduate

Dewis Yswiriant: Eich ail ddewis o ran prifysgol.

MMath: Mae hwn yn gwrs pedair blynedd sy'n cyfuno cwrs tair blynedd israddedig â chwrs blwyddyn Meistr (ôl-raddedig). Bydd eich pedwaredd flwyddyn yn cynnwys prosiect ymchwil manwl.

Tracio: System tracio ar-lein UCAS lle gallwch weld cynnydd eich cais.

UCAS: Ystyr hyn yw'r Gwasanaeth Derbyn i Brifysgolion a Cholegau yn y Deyrnas Unedig. Mae pob cais yn y Deyrnas Unedig yn mynd trwy UCAS.

Israddedig: Mae hyn yn berthnasol i bob gradd lefel gyntaf.

Myfyrwr Israddedig: Pan ddechreuwch yn y Brifysgol, byddwch yn fyfyrwr Israddedig tra byddwch yn astudio Gradd Israddedig.

BSc: Gradd Academaidd Israddedig a elwir yn Faglor mewn Gwyddoniaeth. Pan fyddwch yn graddio, dyfernir BSc i chi yn eich pwnc.

BA: Ystyr hyn yw Baglor yn y Celfyddydau. Pan fyddwch yn graddio, dyfernir BA i chi yn eich pwnc.

CYSYLLTWCH Â NI

Y Coleg Gwyddoniaeth
Campws Singleton,
Prifysgol Abertawe,
SA2 8PP Cymru, Y Deyrnas Unedig

Rhif ffôn: **+44 (0)1792 295111**

E-bost: **study@abertawe.ac.uk**

 **@swanscience**

 **swanseascience**

I gael gwybodaeth am dderbyn myfyrwyr o'r Deyrnas
Unedig, eostiwhch: **admissions@swansea.ac.uk**

I gael gwybodaeth am dderbyn myfyrwyr rhyngwladol,
eostiwhch: **international.admissions@swansea.ac.uk**



Prifysgol
Abertawe
Swansea
University

www.swansea.ac.uk/geography